# Fframwaith Adfywio Ardal Ni
CYNLLUN ADFYWIO LLEOL

## ARDAL BRO ARDUDWY



Ebrill 2025


CYNGOR GWYNEDD

# CYFLWYNIAD

# 01

Yn 2021, cytunodd Bwrdd Adfywio Cyngor Gwynedd i ddatblygu Fframwaith Adfywio newydd. Bwriad y Fframwaith yw sicrhau bod camau rhagweithiol yn eu lle er mwyn sicrhau cydweithio i wella'r ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol.

Yn rhan o'r Fframwaith hwnnw mae'r sir wedi ei rhannu yn 13 Ardal Adfywio Lleol a chynllun gweithredu wedi ei greu ar gyfer pob un o'r ardaloedd. Dyma'r cynllun gweithredu ar gyfer ardal Bro Ardudwy.




Ardaloedd Adfywio Lleol:
Ardal Bangor, Ardal Dyffryn Ogwen, Ardal Bro Peris, Ardal Caernarfon, Ardal Bro Lleu / Nantlle, Ardal Pen Llŷn, Ardal Pwllheli, Ardal Porthmadog / Penrhyndeudraeth, Ardal Bro Ffestiniog, Ardal Bro Ardudwy, Ardal Bala Penllyn, Ardal Dolgellau ac Ardal Tywyn & Bro Dysynni.

Mae 'Adfywio' wedi ei ddiffinio fel ymdrech fwriadol i wella ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol neu yn ddiwylliannol. Pwysleisiwyd hefyd bod rôl allweddol i gymunedau adnabod blaenoriaethau lleol; a chyfraniad sefydliadau lleol mewn datblygu cynlluniau gweithredu.

Wedi proses ymgysylltu yn 2022 a gwrando ar farn pobl lleol, mae'r cynllun yn cynnwys gweledigaeth a blaenoriaethau pob cymuned ar gyfer y dyfodol. Gyda gweithio mewn partneriaeth yn greiddiol i'r cynllun y gobaith yw y bydd yn rhoi trywydd clir i gamau all ddod a newid cadarnhaol i gymunedau fydd yn newid bywydau er gwell. Nod y cynllun felly yw bod yn ganllaw i fuddsoddiad yn lleol yn ogystal â dylanwadu ar benderfyniadau polisi ym mhob maes - o iechyd ac addysg i drafnidiaeth a chynllunio.

# FFRAMWAITH ADFYWIO GWYNEDD



Mae ein Fframwaith Adfywio ar gyfer Gwynedd yn canolbwyntio ar ymdrechion bwriadol i wella ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol er mwyn creu cymunedau iach, llewyrchus, deinamig a chynaliadwy gan sicrhau mewnbwn a chyfraniad ystod eang o sefydliadau lleol.

## Gweledigaeth


**Datblygu a chefnogi cymunedau cynaliadwy sy'n iach, llewyrchus ac egniol gyda'r hyder i fentro, a gyda'r awydd a'r gallu i gyfrannu eu hatebion eu hunain i anghenion lleol ac i fanteisio ar gyfleoedd newydd**

## Ein Gwerthoedd

**Cynwysoldeb:** byddwn yn cynnwys rhagor o bobl yn ein gwaith
**Ymddiriedaeth**: byddwn yn parchu ac yn ymddiried yn y bobl rydym yn gweithio gyda nhw
**Cydweithio:** byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni
**Meddwl am y System Gyfan :** byddwn yn ystyried effaith lawn ein gweithredoedd
**Awydd am Newid :** byddwn yn herio confensiwn ac yn gweithredu.

## Ein Ffyrdd o Weithio

- Ar sail Asedau: gan adeiladu ar gryfderau'r ardal
- Cyd-berchnogaeth: gan rannu pŵer a'r cyfrifoldeb am ein dyfodol
- Datblygu Parhaus: byddwn bob amser yn ceisio newidiadau cadarnhaol
- Cymuned yn arwain: byddwn yn gweithredu dan arweiniad y Gymuned




Byddwn yn gweithredu'r Fframwaith Adfywio yn unol â Phum Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



# GWAITH YMGYSYLLTU 'ARDAL NI' 03

Bwriad ymgyrch Ardal Ni oedd cynnal sgwrs a thrafod hefo cymunedau lleol er mwyn adnabod beth sy'n bwysig i drigolion a sut hoffent weld eu hardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf




Mae ymgynghori ac ymgysylltu gyda phob cymuned wedi bod yn rhan allweddol o lunio'r cynlluniau gweithredu. Roedd tri cham i'r ymgynghori a gynhaliwyd dan faner 'Ardal Ni 2035'

- Cynhaliwyd trafodaeth cychwynnol gyda chynghorau tref a chymuned ynghyd â mudiadau, grwpiau a cynghorwyr lleol gan dderbyn 15 o ymatebion ar syniadau ynglŷn â beth ddylai fod yn flaenoriaethau lleol ar gyfer yr ardal yn y cyfnod hyd at 2035. Defnyddiwyd yr ymatebion yma fel sail ar gyfer yr ail-gam o ymgysylltu ehangach gyda'r cyhoedd.
- Trefnwyd ymgyrch ymgysylltu cyhoeddus er mwyn rhoi cyfle i breswylwyr leisio barn ynglŷn â'r heriau sy'n wynebu eu hardal nhw, yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw a pha ddatblygiadau maen nhw am weld yn eu hardal dros y 10 i 15 mlynedd nesaf. Derbyniwyd 273 o ymatebion o ardal Bro Ardudwy drwy holiadur ar-lein a phapur
- Yn dilyn sesiynau cyhoeddus cynhaliwyd gweithdai gyda sefydliadau i drafod cynlluniau gweithredu gan ganolbwyntio ar y materion a blaenoriaethau oedd wedi eu hadnabod yn lleol.

## Manylion Pellach

Mae gwybodaeth digidol wedi ei osod ar safle we Cyngor Gwynedd :
https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dweud-eich-Dweud/Canlyniadau/2022/Canlyniadau-Ardal-Ni/Canlyniadau-Arolwg-Ardal-Ni-2035.aspx

Mae manylion pellach ar gael ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio yn cynnwys

- Asesiadau Ardal (crynodeb ystadegol o'r ardal)
- Adroddiad Trafodaethau Cychwynnol (Cam 1)
- Adroddiad Canlyniadau Ymarferiad Ymgysylltu Cyhoeddus (Cam 2)

Yn unol â'r Gwerthoedd a'r Ffordd o Weithio sydd wedi eu hadnabod, mae'r wybodaeth ac adborth o waith ymgysylltu Ardal Ni wedi ei ddefnyddio wrth adnabod blaenoriaethau sirol a lleol.

# CYNLLUNIAU SIROL A STRATEGOL

04

## Bwrdd Gwasanethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Mon




Cafodd canlyniadau Ardal Ni eu ystyried wrth baratoi asesiadau llesiant ardaloedd lleol. Ar gyfer cynllun 2023-28  tri Amcan Llesiant:

- Lliniaru effaith tlodi ar lesiant ein Cymunedau
- Lles a llwyddiant ein plant a phobl ifanc
- Cefnogi ein cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon.

## Cynllun Cyngor Gwynedd 2023 - 2028

Mae'r cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd nesaf o dan saith maes blaenoriaeth




**GWYNEDD YFORY**
Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc

**GWYNEDD LEWYRCHUS**
Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng

**GWYNEDD GLYD**
Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau

**GWYNEDD OFALGAR**
Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

**GWYNEDD GYMRAEG**
Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

**GWYNEDD WERDD**
Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

**GWYNEDD EFFEITHLON**
Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

## Cynllun Eryri




Cynllun Rheolaeth Statudol sydd wedi ei ddatblygu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol mewn partneriaeth gyda ystod o bartneriaid sydd yn canolbwyntio ar dri maes, sef

**Amgylchedd**
**Iechyd, Lles a Chymunedau**
**Economi Eryri**

## Awdurdodau Cynllunio Lleol

Bydd gwybodaeth yn cael ei ystyried wrth ddatblygu gwaith cychwynnol
- Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Mon 2015 - 2026
- Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri (2016 – 2031)

# ARDAL BRO ARDUDWY HEDDIW

05

Mae ardal hanesyddol Bro Ardudwy wedi ei leoli ar arfordir Meirionnydd sydd yn cysylltu Bae Tremadog gyda mynyddoedd Rhinogydd Eryri ac yn cynnwys trefi Harlech i'r gogledd ac Abermaw i'r de. Mae'r ardal yn cynnwys cymunedau Abermaw, Dyffryn Ardudwy, Harlech, Llanbedr, Llanfair, Talsarnau a Talybont.





## Crynodeb Ardal Bro Ardudwy mewn ffigurau

### Cryfderau

*Yn cymharu yn well na chyfartaledd Cymru neu Wynedd*

- **84.2 –** disgwyliad oes merched, yn uwch na ffigwr Cymreig o 82.3
- **81.2 –** disgwyliad oes dynion, yn uwch na'r ffigwr Cymreig o 78.3
- **1.36 –** (cyfradd fesul 100) ymddygiad gwrthgymdeithasol gofnodwyd gan yr Heddlu sydd yn is na ffigwr Gwynedd o 2.52 a Chymru 2.55
- **83.6% -** canran oedolion gyda chymhwyster sydd yn uwch na chyfartaledd Gwynedd (83%) a Chymru (80%)
- **77% -** canran o'r boblogaeth oedran 26-64 sy'n weithgar economaidd sydd yn uwch na'r ffigwr Cymreig o 75%
- **12%** o bobl mewn amddifadedd incwm sydd yn is na chyfartaledd Gwynedd (13%) a Chymru (16%)

### Gwendidau

*Ddim yn cymharu gystal a chyfartaledd Cymru neu Wynedd*

- **12.6%** - plant 4-5 oed yn ordew sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru o 11.8%
- **18%** o dai yn gartrefi gwyliau, sydd yn uwch chyfartaledd Cymru (3%) a chyfartaledd Gwynedd (11%)
- **2.3%** swyddi gwerth uchel yn is na Gwynedd (11%) a Chymru (13%)
- **48%** - sy'n medru siarad Cymraeg sydd yn ia na'r ffigwr Gwynedd (65%) ond uwch na Chymru (19%)
- **23.4%** - canran o'r boblogaeth sy'n byw gyda salwch tymor hir neu anabledd sydd yn uwch na 20.5% ar gyfer Gwynedd

*Ffynhonnell : Adroddiad Ymgynghoriaeth Burum 2021. Noder fod data wedi ei addasu oherwydd gwahaniaethau rhwng ffiniau rhai ardaloedd adfywio a ffiniau ffynonellau data)*

## Barn Trigolion am yr ardal

### Beth sydd yn dda am yr ardal ?

- Yr amgylchedd naturiol ac hwylustod at fynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad (231)
- Mae'n ardal ddiogel (164)
- Treftadaeth a hanes yr ardal (145)
- Gallu'r ardal i ddenu twristiaeth er budd economaidd (132)
- Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol (124)
- Llwybrau cerdded a beicio a Llwybr yr Arfordir o safon (85)
- Trafnidiaeth gyhoeddus - y ffaith fod rhwydwaith trên y Cambrian yn gwasanaethu'r ardal a'r rhwydwaith bws (70)
- Cyfleusterau fel siopau, caffis a bwytai (68)
- Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant (57)

### Beth sydd yn ddim dda am yr ardal ?


- Diffyg swyddi cyflog uchel a llawn amser (116)
- Diffyg tai addas a fforddiadwy i bobl leol i'w prynu neu eu rhentu (114)
- Mae nifer uchel o ail dai a thai haf yn yr ardal (111)
- Mae'r economi leol yn fregus, nid oes digon o gefnogaeth i fusnesau ac mae siopau'n cau (106)
- Problemau yn ymwneud â pharcio, cyflwr ffyrdd a thraffig mewn sawl rhan o'r ardal (103)
- Diffyg darpariaeth a gweithgareddau i bobl ifanc (91)
- Mae rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yr ardal yn annigonol (90)
- Pryder yn lleol am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal yn yr ardal (77)

*(Ffynhonnell : Ymatebion Ardal Ni Bro Ardudwy. Nifer o ymatebion wedi eu derbyn mewn cromfachau)*

# ARDAL BRO ARDUDWY YMHEN 15 MLYNEDD



Mae’r rhestr isod yn dangos ymatebion a dderbyniwyd yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus ‘Ardal Ni’. Mae’r materion wedi eu gosod yn ôl y nifer o ymatebion a dderbyniwyd, gyda’r materion a rhestrir gael eu hadnabod gan o leiaf 1 allan o 5 ymateb



## Prif faterion lleol wedi eu hadnabod yn ystod gwaith Ardal Ni

**Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn ardal Bro Ardudwy dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?**

| Ranc | Prif Faterion / Blaenoriaethau | Nifer |
|---|---|---|
| 1 | Cynlluniau i sicrhau gwaith a swyddi gwerth uchel | 123 |
| 2 | Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol | 121 |
| 3 | Cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus | 106 |
| 4 | Cynlluniau i ddatblygu safle Maes Awyr Llanbedr | 103 |
| 5 | Cyflwyno deddfwriaeth i reoli’r maes tai haf ac ail gartrefi yn effeithiol | 96 |
| 6 | Cynlluniau i ddatrys problemau parcio a thraffig | 82 |
| 7 | Ardal yn fwy gwyrdd | 82 |
| 8 | Uwchraddio is–adeiledd band eang | 79 |
| 9 | Cynlluniau i wella llwybrau beicio a cherdded | 77 |
| 10 | Gwelliannau i harbwr Bermo | 67 |
| 11 | Cynlluniau i wella cyfleusterau ac adnoddau cymunedol er mwyn dod a phobl at ei gilydd | 61 |
| 12 | Datblygu gwell darpariaeth chwaraeon yn yr ardal | 43 |
| 13 | Cynlluniau a chefnogaeth i weithgareddau sy’n hyrwyddo’r iaith Gymraeg a’r diwylliant ac sy’n cefnogi dysgwyr yr iaith | 40 |
| 14 | Cynlluniau i ddatblygu sgiliau a hyder ymysg aelodau’r gymuned a hybu gwell cydweithio | 37 |

# CYNLLUN GWEITHREDU



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **B1. Cynlluniau i gefnogi busnesau a mentrau lleol a hyrwyddo cynnyrch lleol byddai hefyd yn denu mwy o fusnesau fydd yn creu swyddi gwerth uchel i'r ardal** | 1.1 | Tanio Bermo/ Caffi Trwsio/llyfrgell o bethau/Ffiws | Cyngor Tref Bermo | Benthyg, Prosiect Ffiws | Datblygol | Bl. 3-5 |
| | 1.2 | Gwynedd Lewyrchus : Cronfa Datblygu Busnes | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth DU | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 1.3 | Cynllun Canol Tref Abermaw | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru, sefydliadau lleol | Datblygol | Bl. 1-2 |
| | 1.4 | Cynllun Canol Tref Harlech | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru, sefydliadau lleol | Datblygol | Bl. 1-2 |
| | 1.5 | Prosiect Heol y Llan, Bermo | Cyngor Tref | Cyngor Gwynedd | Datblygol | Bl. 1-2 |
| | 1.6 | Cynlluniau sirol megis Ailwefru, Dyfodol Digidol, Prynu'n lleol, Ffiws, Arfor | Darparwyr amrywiol | Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru | Gweithredol | Bl 1-2 |
| **B2. Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol** | 2.1 | Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd | Cyngor Gwynedd | Partneriaid Tai Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Trydydd Sector | Gweithredol | Bl 1-5 |
| **B3. Cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus** | 3.1 | Maes parcio Dyffryn Ardudwy | Cyngor Cymuned Dyffryn a Talybont | Cyngor Gwynedd | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 3.2 | Creu llwybrau diogel ar hyd yr A496 a B4573 | Cynghorau cymuned Talsarnau a Harlech | | Rhagbaratoi | Bl 5+ |
| | 3.3 | Gwaith uwchraddio Pont Abermaw | Network Rail | Cyngor Gwynedd | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 3.4 | Gwynedd Werdd – Trafnidiaeth Cyhoeddus | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Darparwyr | Cynllun Sirol - Rhagbaratoi | Bl 1-2 |

# CYNLLUN GWEITHREDU



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **B4. Cynlluniau i ddatblygu safle Maes Awyr Llanbedr** | 4.1 | Bwrdd Trosolwg Maes Awyr Llanbedr | Cyngor Gwynedd | Snowdonia Aerospace LLP, Llywodraeth Cymru | Datblygol | Bl. 3-5 |
| **B5. Cyflwyno deddfwriaeth i reoli'r maes tai haf ac ail gartrefi yn effeithiol** | 5.1 | Gwynedd Glyd – Premiwm Treth Cyngor | Cyngor Gwynedd | | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 5.2 | Gwynedd Glyd - Cyfarwyddyd Erthygl 4 | Cyngor Gwynedd | Ardal Cynllunio Cyngor Gwynedd | Rhagbaratoi | Bl 1-3 |
| | 5.3 | Gwynedd Glyd - Cyfarwyddyd Erthygl 4 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Ardaloedd o fewn y Parc Cenedlaethol | Rhagbaratoi | Bl 1-3 |
| **B6. Cynlluniau i ddatrys problemau parcio a thraffig** | 6.1 | Coridor Gwyrdd Ardudwy | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Datblygol | bl.1-2 |
| **B7. Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau'r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati** | 7.1 | Cynllun Amddiffyn Llifogydd Abermaw | Cyngor Gwynedd | Cyfoeth Naturiol Cymru | Datblygol | Bl. 1-2 |
| | 7.2 | Cynllun gardd gymunedol, Wern Mynach | Cyfeillion Wern Mynach | | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 7.3 | Cynllun gwella effeithiolrwydd Neuadd Talsarnau | Pwyllgor Neuadd Talsarnau | | Datblygol | Bl. 1-2 |
| | 7.4 | Gwynedd Werdd - Cynllun Sirol | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Datblygol | Bl.1-2 |
| | 7.5 | Gwelliannau harbwr Pensarn | CMC | | Rhagbaratoi | Bl. 1-3 |

# CYNLLUN GWEITHREDU (PARHAD)



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **B8. Uwchraddio adeiladaeth band eang** | 8.1 | Cynllun 'Yr Ychydig % Olaf' | Uchelgais Gogledd Cymru | Cyngor Gwynedd, Llywodraethau Cymru & DU | Rhagbaratoi | Bl 3-5 |
| | 8.2 | Cynllun Grant Allwedd Bandeang Cymru | Llywodraeth Cymru | | Rhagbaratoi | Bl 3-5 |
| | 8.3 | Darparu bandeang cyflym iawn : Cyfnewidfeydd Abermaw a Dyffryn | Openreach Cyf | Cyngor Gwynedd | Gweithredol | Bl 2-4 |
| **B9 Cynlluniau i wella llwybrau beicio a cherdded yr ardal** | 9.1 | Llwybrau diogel mewn cymunedau - Tan y Castell, Harlech | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Datblygol | Bl. 1-2 |
| **B10. Gwelliannau i harbwr Berma** | 10.1 | Cynllun Atal Llifogydd Gerddi Viaduct | Cyngor Gwynedd (YGC) | Llywodraeth Cymru | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 10.2 | Cynllun Atal Llifogydd Prom y Gogledd, Abermaw | Cyngor Gwynedd (YGC) | Llywodraeth Cymru | Datblygol | Bl 3-5 |
| **B11. Cynlluniau i wella cyfleusterau ac adnoddau cymunedol lleol er mwyn dod a phobl at ei gilydd** | 11.1 | Hwb Cefnogi Pobl | Cyngor Gwynedd | Banc Bwyd De Meirionnydd | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 11.2 | Caffi / Hwb Cymunedol Dyffryn Ardudwy | Pwyllgor Neuadd Dyffryn Ardudwy | | Datblygol | Bl. 1-2 |
| | 11.3 | Parc Coffa Bermo | Cyngor Tref | Cyngor Gwynedd | Datblygol | Bl. 1-2 |
| **B12. Cynlluniau i ddatblygu gwell darpariaeth chwaraeon yn yr ardal a chymorth i ganolfannau hamdden cymunedol** | 12.1 | Cynllunio Busnes a rhaglen waith i'r dyfodol | Harlech and Ardudwy Leisure | Cyngor Gwynedd | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 12.2 | Datblygu cyfleusterau, adnoddau, cyfeleoedd am weithgaredd corfforol | "Pencampwyr Harlech" | Chwaraeon Cymru Partneriaethau lleol Cyngor Gwynedd, Ysgol Ardudwy | gweithredol | Bl. 2-5 |
| | 12.3 | Cyfleoedd chwarae a chymdeithasu plant a phobl ifanc (Cynllun Sirol) | Cyngor Gwynedd | | Datblygol | Bl. 1-2 |

# CYNLLUN GWEITHREDU (PARHAD)



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 12.4 | Uwchraddio Parc Chwarae Pentre Uchaf Dyffryn Ardudwy | Cyngor Cymuned Dyffryn Ardudwy | | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| **B13 Cynlluniau a chefnogaeth i weithgareddau sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant ac sy'n cefnogi dysgwyr yr iaith** | 13.1 | Cyfeillion Ellis Wynne | Addasu'r Beudy, y Las Ynys Faw | | Rhagbaratoi | Bl. 2-5 |
| | 13.2 | Cyfeillion Ellis Wynne | Mynediad i'r Anabl y Las Ynys Fawr | | Rhagbaratoi | Bl. 2-5 |
| | 13.3 | Gwynedd Cymraeg : Hybu defnydd o'r Gymraeg (Cynllun Sirol) | Cyngor Gwynedd | Amrywiol | Datblygol | Bl. 1-2 |
| **B14. Cynlluniau i ddatblygu sgiliau a hyder ymysg aelodau cynghorau cymuned, grwpiau a mentrau cymdeithasol a hybu gwell cydweithio** | 14.1 | Uwchraddio Toiledau Llanbedr | Cyngor Cymuned Llanbedr | | Datblygol | Bl. 1-2 |
| | 14.2 | Caffi / Hwb Cymunedol Dyffryn Ardudwy | Pwyllgor Neuadd Dyffryn Ardudwy | | Datblygol | Bl. 1-2 |
| | 14.6 | Gweithgareddau celfyddydol | Theatr y Ddraig | | Datblygol | Bl. 1-2 |

# CYDLYNU A MONITRO

11

Bwriad y Cynllun Gweithredu yw ymgorffori prosiectau a gweithgaredd ystod eang o sefydliadau sy'n cyfrannu at adfywio a gwella ardal Bro Ardudwy. Mae hon yn ddogfen fyw, a bydd yn cael ei diweddaru o bryd i'w gilydd.

Fel rhan o'r Fframwaith Adfywio, bydd trefniadau ar gyfer monitro a chydlynu'r rhaglen waith yn cael eu sefydlu ym Mro Ardudwy, gan ystyried strwythurau a threfniadau cydweithio presennol.

Bydd adroddiad blynyddol byr yn cael ei baratoi gan gynnwys diweddariad ar y cynllun gweithredu a'r holl brosiectau cysylltiedig, ac unrhyw gynnydd yn ystod y cyfnod.




Diolch am gyfraniadau cynrychiolwyr o sefydliadau lleol Bro Ardudwy yn cynnwys :

- Cyngor Tref Abermaw
- Cyngor Cymuned Talsarnau
- Cyngor Cymuned Dyffryn Ardudwy a Talybont
- Cyngor Cymuned Llanbedr
- Cyngor Cymuned Llanfair
- Cyngor Cymuned Harlech
- Hamdden Harlech & Ardudwy Leisure
- Theatr y Ddraig
- Cyfeillion Ellis Wynne, Las Ynys Fawr
- Neuadd Bentref Dyffryn Ardudwy
- Neuadd Llanbedr
- Neuadd Llanfair
- Neuadd Goffa Harlech
- Neuadd Talsarnau
- Barmouth Sailor's Institute
- Clwb Rygbi Harlech
- Clwb Golff Harlech
- Clwb Peldroed Bermo a Dyffryn
- Cymdeithas Dwristiaeth Harlech
- Friends of Wern Mynach
- Barmouth Oasis Community Group
- Barmouth Publicity Association
- Grŵp Adfywio Dyffryn Ardudwy a Talybont
- Y Tir
- Yr Hen Lyfrgell Harlech
- Pwyllgor Llais Ardudwy